Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dolau

**Ffordd Pen-y-bont ar Ogwr**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**RhCT**
**CF72 9RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Dolau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Dolau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 520 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 393 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 60 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 6.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 1.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 13.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 07/01/1997 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn gymuned ddysgu gyfeillgar, fywiog a chynhwysol lle mae gan bawb ddisgwyliadau a dyheadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac eraill. Mae disgyblion yn falch o fod yn rhan o’r ysgol ac yn ymdrechu’n frwdfrydig i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Maent yn parchu ei gilydd ac yn cefnogi’i gilydd ag aeddfedrwydd cymeradwy wrth iddynt weithio a chwarae. Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn dda. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau iaith, rhifedd a digidol o’u mannau cychwyn. O ganlyniad i ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd, mae disgyblion o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd da yn y ddwy iaith ac yn manteisio ar bob maes dysgu yn hyderus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr a chyffrous sy’n annog disgyblion i archwilio, bod yn chwilfrydig a datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Mae disgyblion yn cyfrannu’n briodol at beth maent yn ei ddysgu, a sut, wrth i’w syniadau a’u hoff bethau gael eu hymgorffori mewn gweithgareddau a themâu. Mae athrawon yn modelu ymddygiadau dysgu da yn dda ac yn darparu adborth amserol sy’n atgyfnerthu dealltwriaeth ac yn ysgogi meddwl dyfnach disgyblion. Mae gweithgareddau’n herio disgyblion yn bwrpasol ac mae’r ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored yn lleoedd prysur a chynhyrchiol. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, nid yw cyflymdra’r addysgu yn ddigon cyflym ac nid yw holi yn arwain y camau nesaf mewn dysgu mor effeithiol ag y gallai.

Mae’r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig. Mae’n eiriolwr dygn ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff, ac mae ei weledigaeth wedi’i seilio ar ddyheu’n barhaus am y safonau, y cynnydd a’r lles gorau oll i bawb. Caiff y pennaeth ei gynorthwyo’n hynod effeithiol gan dîm o staff sydd wedi’u cymell ac yn ymroddgar. Maent yn elwa’n fawr ar y cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygu arweinwyr yn yr ysgol sy’n effeithiol ar gyfer profiadau dysgu a chynnydd disgyblion. Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn fedrus ac yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o’u dyletswyddau a’u rhwymedigaethau. Maent yn rhoi cymorth pwrpasol i arweinwyr a staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o’i hadnoddau.

## Argymhellion

A1 Rhannu arfer addysgu orau yn benodol i wella cyflymdra gwersi a medrau holi athrawon

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â llwybrau dysgu proffesiynol rhagorol sy'n datblygu arweinyddiaeth yn strategol ar bob lefel, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygiadol, ac eithrio eu medrau Cymraeg sy'n nodedig is ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ar draws y meysydd dysgu o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg. Mae hyn yn un o gryfderau nodedig yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau siarad a gwrando. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn cydweithio'n effeithiol wrth iddynt adeiladu pontydd yn yr ardal awyr agored gan ddefnyddio cretiau plastig a phlanciau pren. Maent yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion ac yn parchu a gwerthfawrogi awgrymiadau ynglŷn â sut gallent gryfhau eu lluniadau. Maent yn ymateb yn aeddfed gan ddefnyddio iaith a thôn briodol. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn mynegi eu pryderon am fygythiad newid hinsawdd yn fedrus. Maent yn defnyddio iaith sy'n benodol i bwnc yn bwrpasol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i ddisgrifio sut mae'r rhew sy'n teneuo yn bygwth poblogaeth yr eirth gwynion.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol yn y ddwy iaith. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at eu darllen ac yn gwerthfawrogi'n fawr y ffaith fod darllen yn rhoi mynediad iddynt at y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion iau yn defnyddio strategaethau pwrpasol i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac yn rhagfynegi'n hyderus beth fydd yn digwydd nesaf yn eu storïau. Erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn dechrau defnyddio atalnodi'n effeithiol i'w helpu i gyfleu ystyr wrth iddynt ddarllen ystod ehangol o destunau. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio ffynonellau ysgrifenedig mwy cymhleth yn fedrus i gasglu gwybodaeth, ac yn defnyddio cliwiau o'r testun i gasglu ystyr ddyfnach yn llwyddiannus.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ysgrifennu. Mae disgyblion iau yn arbrofi'n rhwydd â'u hysgrifennu cynnar wrth iddynt greu amrywiaeth o farciau gan ddefnyddio ystod o offer. Maent yn gwneud cynnydd yn gyflym i ddefnyddio brics adeiladu yn greadigol i gynrychioli siapiau geiriau syml. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn gwneud defnydd effeithiol o iaith berswadiol ac yn dyfeisio sloganau deniadol i hyrwyddo cynnyrch o'u dewis nhw. Mae disgyblion hŷn yn dewis iaith yn ddychmygus ac yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg i greu bywgraffiad addysgiadol am athro prifysgol enwog sy'n ennyn diddordeb y darllenydd yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau mathemategol wrth iddynt wneud cynnydd trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu

hymwybyddiaeth o rif wrth iddynt gyfrif gwrthrychau i fyny i 10 yn hyderus. Maent yn adeiladu ar y ddealltwriaeth gynnar hon yn llwyddiannus i alw eu tablau lluosi i gof gan ddefnyddio caneuon *reggae* i gefnogi eu dysgu ym Mlwyddyn 3. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, maent yn defnyddio strategaethau priodol ar gyfer lluosi rhifau cynyddol gymhleth. Maent yn cyfiawnhau eu dewisiadau cyfrifo yn fedrus a gallant gymharu manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol â'u medrau digidol. Maent yn cymhwyso'u medrau yn briodol i gefnogi eu dysgu mewn meysydd eraill. O oedran ifanc, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio platfformau ar-lein yn hyderus i fynd at eu gwaith, a'i arbed, yn annibynnol. Wrth i'w medrau ddatblygu, maent yn dechrau gwneud defnydd pwrpasol o adnoddau digidol i greu cyflwyniadau amlgyfrwng cynhwysfawr gan ddefnyddio ystod o effeithiau sy'n ystyried y gynulleidfa fwriadedig yn dda.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at weithgareddau corfforol. Mae disgyblion iau yn dangos dycnwch a rheolaeth dda wrth iddynt reidio'u beiciau yn egnïol o gwmpas yr ardal y tu allan. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, maent yn cydlynu eu symudiadau â diben a chywirdeb cynyddol. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus, er enghraifft wrth weithio i sgorio fel rhan o dîm yn ystod gemau pêl. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau defnyddio'r ardaloedd dringo yn yr awyr agored i ddatblygu cryfder eu corff cyfan yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Ym Mlwyddyn 1 a 2, er enghraifft, maent yn creu coronau ac yn eu haddurno fel sydd orau ganddynt gan ddefnyddio eitemau naturiol fel dail a brigau y maent wedi'u casglu o'r ardal y tu allan.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ymdeimlad cryf o falchder yn eu hysgol ac maent yn teimlo'n hapus o fewn ei hamgylchedd gofalgar ac anogol. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, er enghraifft wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn bwrpasol ac yn gyfrifol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg a pham mae rheolau'r ysgol yn bwysig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth drylwyr o sut i aros yn ddiogel ar-lein, er enghraifft sut i gadw eu gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos graddau uchel o ofal am ei gilydd, ac yn trin ei gilydd â charedigrwydd cymeradwy. Maent yn foesgar a chwrtais ac yn barchus tuag at staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr mewn gallu cynorthwyo disgyblion eraill trwy eu rolau etholedig ar draws nifer o grwpiau llais y disgybl. Maent yn dylanwadu ar welliannau a phenderfyniadau yn bwrpasol ar draws yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r Cyngor Ysgol, y 'Cyngor Eco', y 'Cyngor Chwaraeon' a 'Dreigiau Dolau'. Mae'r Cyngor Eco wedi ymweld â'r ganolfan ailgylchu leol i adeiladu ar eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd

a'r newidiadau cadarnhaol y gellir eu gwneud yn yr ysgol i hyrwyddo'r agwedd hon. Wedyn, mae disgyblion yn awgrymu syniadau dychmygus ac yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu barnau, ac yn gweithredu arnynt yn bendant.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn mwynhau cyfleoedd i weithio'n annibynnol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymgysylltu'n drylwyr â'r amrywiaeth eang o weithgareddau a ddarperir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith am gyfnodau cynaledig. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis gweithgareddau heriol o ystod o dasgau sy'n ymestyn eu dysgu'n effeithiol, ac yn dangos dyfalbarhad a phenderfyniad i gwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu. Maent yn barod i ymgymryd â phrofiadau newydd ac anghyfarwydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn datblygu eu medrau mathemategol wrth iddynt gael eu hannog i ddarganfod, dal ac arbrofi ag eitemau naturiol yn yr ardal goedwig. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu'r gallu i weithredu'n bwrpasol ar adborth amserol gan athrawon a gwella ansawdd eu gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r modd y mae diet, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl i gyd yn effeithio ar ansawdd eu bywyd. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol yn ystod gwersi, amseroedd egwyl a digonedd o weithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dangos ymrwymiad wrth iddynt feithrin eu medrau pêl-droed mewn cyfres o sesiynau sydd â thema sy'n cyd-fynd â ffilm animeiddiedig adnabyddus i blant.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi eu lles eu hunain yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am yr ardaloedd lles awyr agored dynodedig ac am y modd y mae'n rhoi lloches bwrpasol iddynt lle gallant reoli eu hemosiynau. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa ar raglen adeiladu 3D ar-lein sy'n defnyddio cymeriadau ac *emojis* i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i reoli eu teimladau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gref o degwch, cydraddoldeb a hawliau plant. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymharu sut mae hawliau plant wedi newid yn ystod y can mlynedd ddiwethaf a maint y newidiadau hyn. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae disgyblion hŷn yn trafod cydraddoldeb rhywiol yn y diwydiant adeiladu ac arwyddocâd mynediad cyfartal at gyflogaeth i bawb. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gynhwysfawr sy'n briodol i oedran o berthnasoedd, o ganlyniad i gwblhau gweithgareddau yn canolbwyntio ar rymuso, diogelwch a pharch.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi cydweithio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o egwyddorion diwygio'r cwricwlwm a sut orau y gellir integreiddio'r rhain yn narpariaeth yr ysgol. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ffocws ar 'Cynefin' yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddeall nodweddion ffisegol a dynol eu bro yn well.

Mae athrawon yn annog disgyblion i rannu syniadau ar gyfer tasgau wythnosol a diwrnodau thematig sy’n eu galluogi i gyfrannu’n briodol at beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau yn cefnogi eu hanghenion datblygiadol cynnar yn dda ac yn cynnwys cyfleoedd difyr i ddysgu trwy chwarae rhydd ac archwilio. Mae’r profiadau dysgu ar gyfer y disgyblion hŷn yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr llawn cymhelliant, annibynnol a chydweithredol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyffrous a dilys ar gyfer dysgu yn yr ardaloedd awyr agored ar draws yr holl grwpiau oedran, sy’n ymestyn profiadau dysgu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ystod y gwaith ar ddiwylliant Affricanaidd, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau drymio ac yn paratoi salad iachus sy’n cynnwys cynhwysion dilys.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes, diwylliant a thraddodiadau’r ardal leol a Chymru yn datblygu’n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am hanes lleol trwy ymchwilio i’r stori y tu ôl i sbaniel Llanharan. Maent hefyd yn cydweithio ag artistiaid lleol o Gymru, sy’n cefnogi datblygiad creadigol y disgyblion yn dda.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion yn effeithiol ar draws pob oedran. Yn ychwanegol, mae addysgu llythrennedd yn dra ystyriol ac yn diwallu’r angen i gynllunio cyfleoedd teg ar gyfer dwy ffrwd cyfrwng iaith. Mae staff yn sicrhau cyfleoedd i gymhwyso ac ymestyn medrau disgyblion mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae’r ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn llwyddiannus trwy weithredu awr lles a chlwb allgyrsiol sy’n agored i’r holl ddisgyblion.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu’r Gymraeg ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig. Mae disgyblion yn elwa ar gael eu trwytho o fewn amgylchedd dwyieithog a chefnogol lle mae disgyblion o’r dosbarthiadau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd yn cefnogi ei gilydd â datblygu llafaredd Cymraeg. Mae athrawon yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gyffredinol wrth roi cyfarwyddiadau a thrafod teimladau gyda’r disgyblion iau. Ymhlith y disgyblion hŷn, mae athrawon yn adeiladu’n systematig ar allu’r disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg. Mae’r strategaethau a ddefnyddir ar draws yr ysgol yn ddifyr ac effeithiol. Mae disgyblion a staff yn falch o’r ffaith fod yr ysgol yn gwbl ddwyieithog.

Mae cynlluniau’r ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o berthnasoedd ac amrywiaeth yn datblygu’n dda. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion iau feddwl am sut maen nhw'r un fath, ond yn wahanol i bobl eraill, a dathlu hyn. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, maent yn dysgu am hanes a phrofiadau diwylliannau eraill, er enghraifft trwy storïau bywyd ffigurau dylanwadol ac ysbrydoledig fel Betty Campbell a Rosa Parks. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos empathi yn aeddfed â’r caledi a’r trafferthion y gallai pobl eraill eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Mae gan athrawon nodau clir ar gyfer profiadau dysgu ac maent yn darparu esboniadau effeithiol i helpu disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn modelu ymagweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn darparu adnoddau addysgu buddiol sy’n cefnogi medrau dysgu’n annibynnol disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau holi pwrpasol yn dda i alw dysgu blaenorol disgyblion i gof, ac annog meddwl. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau’n mynd yn eu blaen ar gyflymdra da ac mae ystafelloedd dosbarth yn fwrlwm o

weithgarwch. Mewn ychydig iawn o sesiynau, nid yw cyflymdra'r dysgu yn ddigon chwim ac nid yw'r holi'n hyrwyddo dysgu mor effeithiol ag y gallai. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae staff wedi datblygu trefniadau asesu trylwyr. Maent yn darparu cyfleoedd cynhyrchiol i ddisgyblion adolygu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol ac amserol i ddisgyblion, ac o ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a ble gallant wella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn rhoi manylion am gynnydd disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysgu yn briodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion yn gryfder clir yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus, gyfeillgar a chynhwysol ac mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd cynnes ac anogol gyda disgyblion, ac mae hyn yn cefnogi eu lles a'u dysgu yn effeithiol. Caiff disgyblion eu hannog i weithio hyd eithaf eu gallu ar hyd yr ysgol, ac maent yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd, a thuag at staff.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â lleoliadau cyn-ysgol ac asiantaethau allanol, ac o ganlyniad, caiff disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol eu nodi'n gynnar. Mae staff yn gweithio'n agos gyda disgyblion a rhieni i gynllunio'r rhaglenni cymorth mwyaf priodol ar gyfer anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, defnyddir holiaduron i ddisgyblion a rhieni i lywio dealltwriaeth staff o anghenion disgyblion, ymhellach. O ganlyniad, mae perthnasoedd rhwng staff a theuluoedd yn dda iawn. Caiff gofynion cymorth dysgu eu nodi'n bwrpasol ar gyfer pob un o'r disgyblion, a'u cyflawni gan staff hynod ymroddgar. Mae'r cydlynydd ADY hynod effeithiol yn monitro effaith rhaglenni cymorth yn ofalus i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o effaith y cymorth a roddir, ac yn addasu cymorth yn gyflym pan fydd angen.

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynnal ffocws cryf ar iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol yn sensitif. Er enghraifft, mae disgyblion yn rhannu teimladau trwy system 'mewngofnodi: allgofnodi' ddyddiol ac yn postio sylwadau caredig ar fwrdd arddangos 'Confetti Caredigrwydd'. Mae staff yn ymateb i unrhyw anghenion a nodwyd yn gyflym ac yn sensitif. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn mynychu amrywiaeth o glybiau allgyrsiol fel y clwb criced, sy'n datblygu gwydnwch a medrau gwaith tîm gwerthfawr disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae staff yn cysylltu gwasanaethau a gweithgareddau'r ysgol yn bwrpasol â digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft cyflwyno gwasanaeth y Cyngor Eco yn hyrwyddo'r angen i ailgylchu. Mae gan grwpiau cymunedol lleol rôl

bwysig mewn cefnogi'r cwricwlwm ac maent yn darparu cyfleoedd difyr ar gyfer dysgu. Er enghraifft, caiff disgyblion Blwyddyn 3 gyfle i chwarae rôl stori Arch Noa yn ystod gwasanaeth wedi'i gyflwyno yn yr ysgol gan grŵp lleol.

Mae sawl cyfle priodol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain trwy'r grwpiau llais y disgybl gweithgar niferus sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae natur gynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn cael eu cynrychioli ar grwpiau llais y disgybl. Mae'r ysgol yn cyfuno gwaith y grwpiau hyn yn briodol â phrofiadau dysgu cyfoethog. Mae'r grŵp dan arweiniad disgyblion, 'Dreigiau Dolau', er enghraifft, yn cefnogi ac yn annog disgyblion i sgwrsio yn Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddathlu treftadaeth, hunaniaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn dysgu am draddodiad llwyau caru ac ystyr y symbolau sydd wedi'u cerfio ynddynt.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gydag arlunwyr lleol i greu darnau o waith celf dychmygus ac yn ymweld â chanolfan cynhyrchu ffilmiau gyfagos, hefyd.

Mae staff yn annog disgyblion i barchu safbwyntiau a chredoau pobl eraill, cydnabod a pharchu amrywiaeth a deall pwysigrwydd goddefgarwch. Mae llais y disgybl yn hollbwysig a gwrandewir ar syniadau disgyblion a gweithredir arnynt, lle bo modd. Er enghraifft, yn y llyfrau cynllunio dosbarth, mae gwersi a gweithgareddau yn ystyried gwybodaeth flaenorol disgyblion, yn ogystal â'u diddordebau. Mae'r ysgol yn gwbl gynhwysol ac yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod gan bob un o'r disgyblion ymdeimlad o berthyn. Mae disgyblion yn elwa ar westeion ac ymwelwyr sy'n rhannu eu profiadau o lwyddiant mewn oedolaeth ac yn codi dyheadau disgyblion o ganlyniad. Mae ymwelwyr, yn cynnwys cyn chwaraewraig rygbi rhyngwladol o Gymru, yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu gwerthoedd fel ymrwymiad a dyfalbarhad.

Ceir diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cyfrannu at ddiogelwch disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol ar waith i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol lle mae pob un o'r disgyblion yn ffynnu o fewn cymuned hapus, ddiogel a dwyieithog. Mae'n gweithio'n ddiflino i rannu'r weledigaeth hon ac yn gosod disgwyliadau uchel i bawb yn yr ysgol. Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn ymateb â brwdfrydedd a thrylwyredd ac yn cydweithio'n llwyddiannus i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae disgyblion o'r ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn ymateb yn gadarnhaol i gael eu herio i fod y gorau y gallant fod. Maent yn mwynhau chwarae a chymdeithasu â'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl. Ceir ethos cefnogol cryf yn yr ysgol ac mae pob un o'r staff yn annog disgyblion i barchu'r ddwy iaith yn llawn. O ganlyniad, ar draws pob dosbarth, mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn gwerthfawrogi eu cyfleoedd i ddysgu a siarad Cymraeg. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arwain trwy esiampl. Mae'n fodel rôl ysbrydoledig ar gyfer arweinwyr a staff ar bob lefel, ac yn angerddol ynglŷn â chynnal amgylchedd cefnogol ac anogol ar gyfer disgyblion a staff. Caiff ei gefnogi'n fedrus gan y dirprwy bennaeth a'r uwch arweinwyr sy'n croesawu newid yn barhaus wrth iddynt anelu am ragoriaeth ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir sy'n cefnogi datblygiad yr ysgol yn bwrpasol. Caiff rolau arwain eu rhannu'n hynod effeithiol ac fe gaiff athrawon a staff cymorth eu hannog i ymgymryd â chyfrifoldeb am wahanol agweddau ar y ddarpariaeth sydd, yn ei dro, yn datblygu eu medrau arwain yn llwyddiannus. Mae hyn yn ymestyn gallu'r ysgol ar gyfer gwelliant parhaus yn fawr. Mae staff sy'n ymgymryd â rolau arwain yn gwerthfawrogi'r ymreolaeth a roddir iddynt yn fawr. Er enghraifft, maent yn ymgymryd ag ymchwil bersonol cyn treialu a gwerthuso ymagweddau arloesol at ddysgu wrth iddynt ddatblygu cwricwlwm yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n agos iawn gydag aelodau o'r corff llywodraethol. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ar draws ystod briodol o bwyllgorau i ystyried pob agwedd ar ddarpariaeth ac anghenion datblygu'r ysgol. Maent yn monitro cyllideb a gwariant yr ysgol yn agos. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y grant datblygu disgyblion yn cael ei wario'n briodol ac yn effeithio ar gynnydd disgyblion yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr yn mynd ati i hyrwyddo diwylliant o fwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol i arsylwi disgyblion, a siarad â nhw. Maent yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn fedrus am safonau a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn cwestiynu priodoldeb yr her a gaiff disgyblion o fewn gweithgareddau digidol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn ystyried yr adborth ac yn diwygio ymagwedd yr ysgol yn bwrpasol.

Mae arweinwyr wedi ymgorffori ystod effeithiol o brosesau i fonitro darpariaeth a chefnogi cynllunio gwelliant. Maent yn casglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso'r ddarpariaeth a'i heffaith ar ddysgu, cynnydd a lles disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol a'r meysydd lle mae angen iddi ddatblygu ymhellach. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi'r dystiolaeth o'r prosesau monitro ac yn ei defnyddio'n effeithiol i ffurfio cynlluniau gwella manwl sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwella a blaenoriaethau cenedlaethol ehangach yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol rhagorol ar gyfer staff. Caiff staff ar bob lefel eu hannog i ddatblygu eu harbenigedd i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau da ag ystod o bartneriaid. Er enghraifft, mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, ac mae hyn yn annog staff i ystyried eu hymagweddau at y cwricwlwm ac addysgeg yn dda. Mae'r ysgol yn hynod effeithiol o ran darparu cyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau arwain trwy gyflwyno ystod o fentrau yn llwyddiannus. Mae hyn yn annog staff i ddatblygu eu hymagwedd at ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, rhoi cynlluniau gweithredu ar waith a gwerthuso effaith. Darperir ystod effeithiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff cymorth hefyd sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar allu'r ysgol i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion. Ceir strwythurau rheoli perfformiad sefydledig, sy'n annog datblygiad gyrfa ac yn sicrhau atebolrwydd priodol ar gyfer staff.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/12/2023